OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 327

## Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002

### RHAN II

### PERSONAU COFRESTREDIG

**Hysbysu tramgwyddau**

**10.**—(1) Os yw'r person cofrestredig neu'r unigolyn cyfrifol wedi'i gollfarnu o unrhyw dramgwydd troseddol, p'un ai yng Nghymru neu mewn man arall, rhaid iddo hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig ar unwaith—

(a) o ddyddiad a man y collfarniad;

(b) o'r tramgwydd y cafodd ei gollfarnu o'i herwydd; ac

(c) o'r gosb a osodwyd arno mewn perthynas â'r tramgwydd.

(2) Os yw'r person cofrestredig wedi'i gyhuddo o unrhyw dramgwydd y gellir gwneud gorchymyn mewn perthynas ag ef o dan Ran II o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000(**1**) (Amddiffyn Plant) rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith i swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol o'r tramgwydd y mae wedi'i gyhuddo ohono ac o ddyddiad a man y cyhuddiad.

(**1**) 2000 p.50.